Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Ely Court**

**Cartref Gofal Ely Court**
**Cwrt-y-Cadno, Sain Ffagan**
**Caerdydd**
**CF5 6XD**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

26 a 28 Medi 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Ely Court

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Ely Court Care ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu’n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus ac yn cael gofal priodol mewn modd amserol. Mae tîm y staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd mewn ffordd gydweithredol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Nid yw dogfennau cynlluniau gofal bob amser ar waith o fewn yr amserlenni gofynnol, ond mae'r tîm rheoli yn gweithio ar hyn yn ystod y pontio rhwng dwy system electronig. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau i’r bobl yn ystod dyddiau'r wythnos ond mae'r darparwr yn ystyried sut y gellid eu gwella.

Mae Ely Court yn cynnig amgylchedd gwrthgyferbyniol rhwng y rhan hanesyddol, draddodiadol a’r ardal fwy modern o ansawdd uchel sydd wedi’i hadnewyddu. Mae gwaith adnewyddu pellach ar y gweill. Mae'r adeilad a'r offer yn ddiogel drwyddo draw a cheir tystiolaeth o wiriadau a gwaith cynnal a chadw. Mae'r tiroedd yn ddymunol, ond mae cynllun ar waith i ddatblygu'r ardd.

Mae unigolyn cyfrifol yn goruchwylio ansawdd y gofal tra bod rheolwr yn goruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae gan y darparwr systemau da ar waith i recriwtio a chefnogi staff. Mae polisïau a gweithdrefnau yn cefnogi gweithrediad y gwasanaeth. Mae gwybodaeth ar gael am y gwasanaeth. Mae mecanweithiau ar waith i archwilio dogfennau a systemau, ond nid yw'r rhain yn sylwi ar fylchau, a fyddai'n ysgogi gwelliant. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cytuno bod hwn yn faes i'w ddatblygu.

## Llesiant

Mae amgylchiadau unigol y bobl yn cael eu hystyried ond mae angen gwelliant i sicrhau bod gofynion gofal a chymorth yn cael eu dogfennu. Mae gwybodaeth ar gael i bobl cyn iddynt ystyried byw yn Ely Court ac ymgynghorir â nhw fel rhan o'r broses cyn-derbyn ynghylch sut yr hoffent i'w gofal gael ei ddarparu. Ystyrir cefndir a dymuniadau unigol y bobl, ac mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o ddewisiadau cyfathrebu'r bobl, gan gynnwys eu dewis iaith. Nid yw cynlluniau gofal bob amser yn cael eu hysgrifennu a'u datblygu mewn modd amserol, felly ni all gweithwyr gofal gael mynediad at wybodaeth bwysig i'w dilyn, ac mae'r bobl nad ydynt yn gallu cyfleu eu dymuniadau mewn perygl. Mae'r tîm gofal yn dod i adnabod y bobl yn dda felly mae effaith hyn yn llai.

Darperir gofal a chymorth mewn modd amserol a chaiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion da i ddangos y gofal a ddarperir ac yn sicrhau bod tasgau i hybu iechyd cyffredinol y bobl yn cael eu cwblhau. Mae'r gwasanaeth yn monitro iechyd y bobl yn agos ac unrhyw ddangosyddion a allai olygu bod angen atgyfeirio at weithiwr iechyd proffesiynol y tu allan i'r cartref; trefnir hyn wedyn. Mae'r bobl sydd heb alluedd yn cael eu hatgyfeirio fel y gallant gael cynrychiolaeth briodol wrth wneud penderfyniadau. Mae cyfathrebu da rhwng y tîm staff, ac maent yn eu tro yn cyfathrebu'n dda â theuluoedd y bobl. Mae cynlluniau gofal, pan fyddant ar waith, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru gyda newidiadau mewn anghenion ac mae tystiolaeth bod y bobl yn rhan o'r broses hon. Mae'r tîm gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac mae ganddynt hyfforddiant ar ddiogelu pobl hŷn. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw'n dda, a chaiff offer ei wirio a'i wasanaethu'n briodol. Cynhelir archwiliadau, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth.

Caiff y bobl eu cefnogi'n bennaf i wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Ymgynghorir â phobl fesul gweithgaredd ynghylch yr hyn yr hoffent ei wneud, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir. Mae'r bobl yn mwynhau cyswllt un-i-un gyda'r cydlynydd gweithgareddau, ac mae rhai yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Weithiau mae dewisiadau gweithgaredd a theithiau i'r gymuned yn gyfyngedig oherwydd argaeledd adnoddau a lefelau staffio, yn enwedig ar benwythnosau. Mae'r bobl yn cael ymweliadau gan eu perthnasau, nid yw hyn yn gyfyngedig, ond mae'r gwasanaeth yn hoffi gwybod p'un a ddisgwylir ymwelwyr fel y gallant gefnogi person i fod yn barod. Mae triniwr gwallt allanol yn ymweld, a gall y bobl ddewis talu i gael steilio a gosod eu gwallt. Pan fydd angen amser tawel ar bobl, yn gwrando ar gerddoriaeth dawelu, i ffwrdd oddi wrth bobl eraill, trefnir hyn. Mae'r bobl hefyd yn dewis treulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain, gan ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r bobl yn mwynhau'r profiad bwyta, boed hynny gydag eraill mewn ardaloedd cymunol, neu gyda theulu yn eu hystafell eu hunain. Cynhelir digwyddiadau mawr, wedi'u trefnu'n dda yn yr ardd. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod ymgynghori mwy ffurfiol â phobl a'u teuluoedd ynghylch gweithgareddau a digwyddiadau

cymdeithasol yn ailddechrau wrth i’r cartref gofal agor ar ôl cyfyngiadau’r llywodraeth oherwydd y pandemig.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus gyda’r gofal y maent yn ei dderbyn, maent yn edrych yn drwsiadus ac yn ymddangos yn hamddenol. Dywedodd teuluoedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw nad oedd ganddynt unrhyw bryderon am y ddarpariaeth gofal, a dywedodd y bobl wrthym gymaint yr oeddent yn hoffi eu gweithwyr gofal. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng gweithwyr gofal a’r bobl, gan ddangos bod y tîm gofal yn adnabod unigolion yn dda iawn, yn adnabod eu hoff bethau a'u cas bethau, a phan fo'n briodol, yn gwybod pryd i chwerthin a chael jôc gyda'r rhai sy'n gwerthfawrogi hyn. Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd pobl yn mwynhau cael torri a gosod eu gwallt gan driniwr gwallt a oedd yn ymweld. Mae gan gydlynydd gweithgareddau berthynas dda â’r bobl, gan eu hymweld yn unigol gan amlaf o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae'n trefnu gweithgareddau cymdeithasol grŵp. Mae nodiadau dyddiol am weithgareddau yn dangos sut mae’r bobl yn ymgysylltu. Er bod y cydlynydd gweithgareddau yn cynllunio gweithgareddau i’r gweithwyr gofal eu cynnal ar benwythnosau, ychydig o dystiolaeth bod hyn yn digwydd sydd.

Cesglir gwybodaeth am berson cyn i'r gwasanaeth gytuno y gall ddiwallu ei anghenion. Mae hyn yn cynnwys siarad â'r person neu ei gynrychiolydd. Mae'r gwasanaeth yn ystyried risgiau i'r unigolyn a sut y gellir eu lliniaru, a chaiff dogfennau yn ymwneud â hyn eu cadw a'u hadolygu. Mae gan y bobl gynllun personol, ond ar hyn o bryd maent yn pontio rhwng systemau electronig. Ni all y bobl fod yn hyderus bod cynlluniau gofal ar waith i ddangos i'r tîm gofal sut i'w cefnogi cyn iddynt fyw yn y cartref. Dim ond yr wybodaeth fwyaf sylfaenol oedd ar gael ar gyfer un person a oedd wedi byw yn y cartref am fis. Gwnaethom siarad â staff a ddangosodd eu bod yn adnabod y bobl dan sylw, yn ymwybodol o'u hoff bethau a'u cas bethau, ac yn dangos gofal sy'n briodol i'r unigolion, felly nid oes unrhyw effaith ar hyn o bryd. Mae diffyg cynlluniau gofal manwl yn rhoi’r bobl mewn perygl ac fe'i nodir fel maes i'w wella. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau i fynd i'r afael â hyn a bydd hyn yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. Mae systemau cynlluniau gofal blaenorol yn dangos bod pobl wedi cymryd rhan yn eu hadolygiadau o gynlluniau gofal; mae angen ailgyflwyno hyn fel rhan o'r system newydd.

Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r tasgau clinigol a gofal ar gyfer y bobl, ac mae rhai ohonynt hefyd yn ystyried sut mae'r person yn teimlo. Mae angen cysondeb ar hyn. Defnyddir pwysau'r bobl a chofnodion eraill fel dangosyddion i nyrsys gymryd camau gweithredu. Gwneir atgyfeiriadau i weithwyr iechyd proffesiynol allanol perthnasol mewn modd amserol. Gwneir atgyfeiriadau priodol hefyd ar gyfer y bobl sydd angen cymorth i aros yn ddiogel gan nad oes ganddynt y ddealltwriaeth i wneud hyn. Mae eiriolwyr yn cymryd rhan pan na all pobl gynrychioli eu hunain. Gwelsom bobl yn mwynhau pryd o fwyd cartref blasus. Darparwyd peth cymorth i'r rhai sy'n gallu bwyta'n fwy annibynnol, ond mae angen monitro hyn yn agosach i sicrhau bod pawb yn gallu bwyta'r hyn sydd ar eu plât.

Mae’r bobl sydd angen cymorth un-i-un i fwyta yn cael hyn, a chaiff maethiad a chymeriant hylif ei fonitro. Mae’r bobl yn cael adolygiadau priodol o feddyginiaeth, a chaiff meddyginiaeth ei rhoi mewn modd diogel.

## Yr Amgylchedd

Mae rhaglen adnewyddu yn cael ei chynnal ac mae rhannau datblygedig y cartref wedi cael eu cwblhau i safon uchel. Erys elfennau o'r adeilad hanesyddol, gan gynnwys ystafelloedd bwyta a mannau byw deniadol, a dywedir wrthym y bydd y rhain yn cael eu hadnewyddu mewn modd ystyriol. Mae'r bobl yn dweud wrthym eu bod yn hoffi eu hamgylchedd. Mae tystiolaeth bod treftadaeth a diwylliant Cymru yn cael eu dathlu mewn gwaith celf o amgylch y cartref gydag arwyddion Cymraeg yn cael eu darparu mewn rhannau wedi'u hadnewyddu. Mae amrywiaeth o ystafelloedd gwely en suite o wahanol feintiau ar gael, a gall y bobl roi gwedd bersonol ar eu hystafelloedd os dymunant, ond gwelsom fod yn well gan lawer fwynhau'r chwaeth a ddarperir gan y cartref ar gyfer manylion megis gorchuddion gwelyau, mân glustogau a llenni. Mae ystafelloedd ymolchi wedi'u hadnewyddu yn hyrwyddo ymlacio ac mae ganddynt offer da. Mae angen adnewyddu rhai ystafelloedd ymolchi o hyd. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu tiroedd y cartref ac mae prosesau ymgynghori ar y gweill i geisio barn y bobl a'u teuluoedd ynglŷn â hyn. Mae'r bobl a'r staff yn dweud wrthym fod partïon dathlu yn cael eu cynnal yn yr ardd, a bod pawb yn mwynhau digwyddiadau o'r fath.

Cedwir y cartref yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Gwelsom fod ystafelloedd gwely'n cael eu glanhau'n drylwyr a dywedodd y gwasanaeth cadw tŷ wrthym fod ganddynt ddigon o offer ac adnoddau. Dywedodd y bobl ac ymwelwyr wrthym pa mor lân y cynhelir y cartref. Er bod y prif ddeunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel i ddiogelu’r bobl, canfuom fod rhai ystafelloedd sy'n cynnwys cemegau heb eu cloi neu wedi eu gadael yn gwbl agored wrth i weithwyr gofal gyflawni eu dyletswyddau'n brysur. Mae'r rheolwr yn ymwybodol o'r mater ac mae wedi cynnig systemau drysau hunan-gau i'r darparwr, sy'n ystyried hyn. Nid oes unrhyw effaith ar y bobl ar hyn o bryd gan fod angen cymorth gweithwyr gofal arnynt i symud o gwmpas yr ardaloedd dan sylw.

Mae offer addas ar gael i’r bobl i gefnogi eu hanghenion corfforol, gan gynnwys amrywiaeth o gadeiriau a gwelyau arbenigol. Mae eitemau arbenigol llai megis cwpanau yfed wedi'u haddasu hefyd ar gael i unigolion. Mae system galw nyrs ar waith a gall y bobl wisgo breichled arddwrn gyda botwm i alw gweithwyr gofal os oes angen. Mae offer yn cael ei wirio a'i brofi'n rheolaidd i gadarnhau ei ddiogelwch. Mae person cynnal a chadw yn cadw cofnodion manwl o wiriadau amgylcheddol ac offer, ac mae gan y gwasanaeth fecanweithiau ar waith i sicrhau bod contractwyr allanol yn profi ac yn atgyweirio offer megis lifftiau a theclynnau codi. Mae tystysgrifau yn dangos bod gwasanaethau fel nwy a thrydan yn ddiogel, a bod gan y darparwr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae offer a

systemau addas ar gael i fynd i'r afael ag unrhyw achos o dân. Mae storio meddyginiaeth yn ddiogel. Mae’r bobl a theuluoedd yn mwynhau ardaloedd o fewn y cartref fel cyfleuster gwneud te a choffi. Mae ardal o'r enw 'Y Salon' wedi'i defnyddio i gynorthwyo â thechnoleg fel y gallai’r bobl gadw mewn cysylltiad ag anwyliaid yn ystod y pandemig. Gan fod y triniwr gwallt sy'n ymweld ar hyn o bryd yn cefnogi’r bobl yn yr ystafell fyw, mae'r darparwr yn ystyried y gweithgareddau hyn a ph'un a yw'r mannau a ddefnyddir yn briodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae unigolyn cyfrifol wedi'i benodi i oruchwylio'r gwasanaeth. Mae'n ymweld â'r cartref i brofi ansawdd y gofal ac yn llunio adroddiadau ar ei ganfyddiadau. Mae hefyd yn trefnu i dimau ardal ddarparu cymorth arbenigol, gan brofi systemau sydd ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu i safon uchel. Gwelsom nad yw elfennau o'r gwasanaeth yn cael eu profi'n ddigonol felly nid yw meysydd i'w gwella yn cael eu nodi bob amser. Mae hyn wedi'i drafod â'r unigolyn cyfrifol, sy'n cytuno bod hwn yn faes i'w ddatblygu a'i wella ei hun. Byddwn yn profi hyn yn yr arolygiad nesaf. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau'n cefnogi gweithrediad y gwasanaeth, ac mae'r rhain yn adlewyrchu deddfwriaeth Cymru, gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae 'datganiad o ddiben' ar gael ac yn cael ei gadw'n gyfredol. Mae'r ddogfen hon yn hysbysu pobl am y cartref a beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth.

Mae rheolwr profiadol, gwybodus ac uchel ei barch yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth yn esmwyth o ddydd i ddydd, gyda chymorth dirprwy reolwr. Disgrifiwyd y rheolwr fel un 'deinamig' gan aelod o un teulu, ac mae tystiolaeth ei fod ef, a'r tîm, yn cyfathrebu'n effeithiol, gan hyrwyddo cysylltiadau da sy'n cyfrannu at lesiant cyffredinol y bobl. Mae dirprwy yn cefnogi'r rheolwr, ill dau yn dilyn systemau sefydliadol i reoli'r amgylchedd, y staff a darparu gofal, ond, nid yw bylchau o ran cynlluniau gofal wedi'u nodi.

Mae'r holl staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac mae ffeiliau personél yn cynnwys dogfennaeth ofynnol. Cefnogir nyrsys i gynnal eu cofrestriad gyda'u corff proffesiynol, a chefnogir gweithwyr gofal i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r cyfnod sefydlu a hyfforddi yn drylwyr ac mae'r staff yn dweud wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth i gyflawni eu rôl. Darperir hyfforddiant arbenigol allanol pan fo angen neu pan ofynnir amdano. Cynhelir cyfarfodydd goruchwylio yn rheolaidd lle gall y staff drafod materion â'u rheolwr llinell, a gellir archwilio cymwyseddau. Mae angen cofnodi cyfarfodydd gwerthuso blynyddol ar wahân, gan ddangos tystiolaeth bod y staff yn cael cyfle i drafod eu datblygiad proffesiynol a gosod nodau ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan fod eglurder hyn yn cael ei golli yn nhrafodaethau'r cyfarfodydd goruchwylio.

Mae'r darparwr yn buddsoddi'n ariannol yn y gwasanaeth, gan gefnogi datblygiad yr adeilad a systemau cofnodi electronig newydd. Mae cyllidebau hael ar gael i ddarparu ansawdd, o ran cynnal a chadw'r amgylchedd, ond hefyd mewn darpariaethau dyddiol. Symudwyd oddi wrth y prydau wedi'u rhewi arbenigol i brydau cartref wedi'u paratoi ar y safle gan gogydd profiadol, gwybodus. Darperir adnoddau gweithgareddau hefyd, ond mae'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff yn mynegi bod angen cefnogi mwy o deithiau i'r gymuned i'r bobl. Cafwyd un darn o dystiolaeth bwerus gan aelod o deulu a ddywedodd y gellir gweld ei berthynas, sy'n byw gyda dementia, yn gwella ei sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu pan fydd yn mynd i'r gymuned, neu'n mynd ar daith. Mae'r darparwr yn ystyried sut y gellir

hwyluso hyn yn fwy, yn ogystal â darparu staff ymroddedig i drefnu gweithgareddau ar benwythnosau.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn cadarnhau bod yr wybodaeth a roddwyd iddo am statws y gwasanaeth a ddarperir yn gywir bob amser. | Newydd |
| 15 | Nid yw cynlluniau personol yn cael eu paratoi cyn i berson ddod yn breswylydd, ac nid yw cynlluniau ar waith yn gyson ar gyfer pawb ar ôl iddynt ddod yn breswylydd. Mae diffyg manylion yn y cynlluniau gofal ynghylch sut y gellir cefnogi'r unigolyn gyda'i anghenion o ddydd i ddydd. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 15/11/2022